# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau) ("y Bil") gan Dr Danny Chambers AS yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024. Mae'r Bil i'w weld yma: Animal Welfare (Import of Dogs, Cats and Ferrets) Bill - Biliau Seneddol - Senedd y DU

## Amcan(ion) Polisi

3. Cafodd darpariaethau i gyfyngu ar fewnforio cŵn, cathod a ffuredau yn fasnachol ac ar eu symud yn anfasnachol i mewn i'r Deyrnas Unedig, ar sail lles anifeiliaid, eu cynnwys gyntaf yn y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Bil gan Lywodraeth y DU, a noddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ("Defra"), ac a fethodd ym mis Mai 2023.

4. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfyngu ar fewnforio cŵn, cathod a ffuredau yn fasnachol ac ar eu symud yn anfasnachol i mewn i'r Deyrnas Unedig, ar sail lles anifeiliaid. Yn benodol, nod y Bil yw mynd i'r afael â smyglo cŵn bach yn anghyfreithlon ac â lefelau cynyddol o symud anifeiliaid anwes mewn ffordd lle nad yw'r safonau isaf sy'n dderbyniol o ran eu lles yn cael eu bodloni. Mae'r materion hyn yn codi pryderon sylweddol ynghylch iechyd a lles anifeiliaid o ran sut yr eir ati i gael gafael arnynt, a sut y maent yn cael eu cadw, eu trin a'u cludo. Nod y Bil yw mynd i'r afael â mewnforio cŵn, cathod a ffuredau lle nad yw'r safonau isaf sy'n dderbyniol o ran eu lles yn cael eu bodloni trwy gyflwyno pŵer galluogi i wneud rheoliadau. Rhaid defnyddio'r pŵer hwn i wahardd dod â chŵn bach a chathod bach o dan chwe mis oed a chŵn a chathod sydd wedi'u hanffurfio neu sy'n drwm o rai bach i mewn i Brydain Fawr. Mae'r Bil hefyd yn ceisio mynd i'r afael â phroblem gyffredin, sef bod rhai yn honni eu bod yn symud anifeiliaid yn anfasnachol er mwyn cuddio'r ffaith eu bod yn mewnforio'n fasnachol. Bydd y Bil yn diwygio'r rheolau ar gyfer symud cŵn, cathod a ffuredau i mewn i Brydain Fawr o drydydd gwledydd.

## Crynodeb o'r Bil

[1] Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, nodwch ein bod, wrth gyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru, yn defnyddio "Senedd Cymru", ac wedyn "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

5. Noddir y Bil gan DEFRA.

6. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer:

- Lleihau nifer yr anifeiliaid (cŵn, cathod a ffuredau) sy'n cael teithio o dan y rheolau anfasnachol o bump fesul person i bump fesul cerbyd, neu i dri fesul pob teithiwr ar droed neu fesul pob teithiwr awyr.
- Sicrhau, pan fyddo ci, cath neu ffured yn cael ei symud gan berson awdurdodedig, mai dim ond o fewn pum diwrnod i'r diwrnod y bydd y perchennog yn symud y caiff hynny ddigwydd.
- Cyflwyno gwaharddiadau sy'n cyfyngu ar fewnforio'r anifeiliaid hyn yn fasnachol a'u symud yn anfasnachol i mewn i Brydain Fawr:
  - Cŵn bach a chathod bach o dan chwe mis oed;
  - Cŵn a chathod ag anffurfiadau sydd heb eu hesemptio (e.e. clustiau wedi'u tocio, cynffonnau wedi'u docio a chathod y tynnwyd eu hewinedd);
  - Cŵn a chathod sy'n drwm iawn o rai bach (yn dorrog ers mwy na mwy na 42 diwrnod).

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

7. Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig, yn neilltuol, lles anifeiliaid.

<u>Cymal 1: Rheoliadau ynglyn â dod â chŵn, cathod a ffuredau i mewn i'r Deyrnas Unedig</u>

8. Mae'r cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol (a'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban, neu DAERA) i wneud rheoliadau ynghylch dod â chŵn, cathod neu ffuredau i mewn i'r Deyrnas Unedig, i hyrwyddo'u lles, i'r graddau y byddai rheoliadau o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae is-adran (2) yn nodi materion y gall rheoliadau a wneir o dan is-adran (1) ymdrin â nhw, gan gynnwys gwahardd neu gyfyngu ar ddod â chŵn, cathod neu ffuredau i mewn i'r Deyrnas Unedig, gwneud esemptiadau i unrhyw waharddiadau, dyroddi trwyddedau a darpariaeth ynghylch gorfodi (fel y nodir yng Nghymal 2(1)).

9. Mae is-adrannau (3) a (4) yn sicrhau bod yn rhaid i'r rheoliadau cyntaf a wneir yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o dan is-adran (1) mewn cysylltiad â chŵn neu gathod, wahardd dod â chŵn neu gathod i'r rhan honno o'r Deyrnas Unedig pan fyddant o dan 6 mis oed, yn dorrog ers mwy na 42 diwrnod, neu wedi cael eu hanffurfio mewn ffyrdd sydd heb eu hesemptio (clustiau wedi'u tocio, cynffonnau wedi'u docio neu eu hewinedd wedi'u tynnu). Caiff y diffiniad o “anffurfio” ei nodi yn is-adran (9).

10. Mae is-adran (5) yn dweud na cheir cyflwyno unrhyw reoliadau dilynol i godi gwaharddiad a osodir gan is-adrannau (3) neu (4) heb ymgynghori yn gyntaf. Mae is-adran (6) yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i

wneud rheoliadau ynghylch cŵn, cathod neu ffuredau y deuir â nhw i mewn i'r Deyrnas Unedig ac yr ymafaelir ynddynt neu y'u cedwir yn gaeth yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â lles neu iechyd cŵn, cathod neu ffuredau y deuir â nhw i mewn i'r Deyrnas Unedig. O dan is-adran (7), gallai hynny gynnwys darpariaeth ynghylch talu costau cadw ci, cath neu ffured yn gaeth neu drosglwyddo perchenogaeth ar unrhyw gi, cath neu ffured.

11. Mae is-adran (8) yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau sy'n gosod cosbau ariannol am dorri deddfwriaeth sy'n ymwneud â lles neu iechyd cŵn, cathod neu ffuredau y deuir â nhw i mewn i'r Deyrnas Unedig.

12. Rwyf o’r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn neilltuol, lles anifeiliaid.

<u>Cymal 2: Rheoliadau o dan adran 1: atodol</u>

13. Mae'r cymal hwn yn nodi darpariaethau atodol mewn perthynas â'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 1. Mae is-adran (1) yn cynnwys rhestr nad yw’n un gynhwysfawr o ddarpariaethau y ceir eu cynnwys yn y rheoliadau, gan gynnwys rhoi pwerau mynediad, arolygu, chwilio, ymafael yn neu gadw'n gaeth, dirymu trwyddedau neu gymeradwyaethau eraill, a chreu troseddau newydd. Mae is-adran (1)(h) yn darparu y caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys darpariaeth a wneir gan Gymalau 4 i 6. Mae is-adran (2) yn nodi cyfyngiadau ar y pwerau mynediad y ceir eu rhoi drwy gyfrwng y rheoliadau. Mae is-adrannau (3) a (4) yn cyfyngu ar y pŵer i greu troseddau newydd.

14. Rwyf o’r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn neilltuol, lles anifeiliaid.

<u>Cymal 3: Ystyr “appropriate national authority” a darpariaethau cysylltiedig</u>

15. Mae is-adran (1) yn diffinio, at ddibenion cymal 1, pwy yw'r awdurdod cenedlaethol priodol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, h.y. yr Ysgrifennydd Gwladol a, lle y byddai'r ddarpariaeth a wneir trwy reoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru neu DAERA, yn ôl eu trefn.

16. Mae is-adran (2) yn gymwys i DAERA ac felly'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru.

17. Mae is-adran (3) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan Gymal 1 y gellid eu gwneud fel arall gan Weinidogion Cymru (neu

Weinidogion yr Alban neu DAERA) ar yr amod bod y Weinyddiaeth Ddatganoledig berthnasol yn rhoi ei chydsyniad.

18. Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer is-adrannau (1) a (3) o'r cymal hwn gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, sef lles anifeiliaid (h.y. yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar gyfer Cymru mewn perthynas â lles anifeiliaid).

<u>Cymal 4: Datgymhwyso rheolau anfasnachol mewn achosion penodol</u>

19. Mae'r cymal hwn yn diwygio Rheoliad (EU) Rhif 576/2013 i ddarparu nad yw'r rheolau sy'n gymwys i symud cŵn, cathod a ffuredau yn anfasnachol i mewn i Brydain Fawr, yn gymwys mewn sefyllfaoedd penodol.

20. Mae is-adrannau (2) a (3) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliad (EU) Rhif 576/2013 i gefnogi'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan is-adrannau (4) a (5).

21. Mae is-adran (4) yn mewnosod paragraffau 1 ac 1A newydd i Erthygl 5 o Reoliad (EU) Rhif 576/2013 sy'n darparu nad yw symud cŵn, cathod neu ffuredau i mewn i Brydain Fawr yn symudiad anfasnachol pan fo cyfanswm o fwy na phum anifail o'r fath fesul pob cerbyd modur neu gyfanswm o dri anifal fesul pob teithiwr troed, ar unrhyw adeg yn ystod y symudiad. Caiff yr awdurdod priodol ddatgymhwyso'r terfyn hwn o dan amgylchiadau eithriadol neu gymhellol.

22. Mae is-adran (5) yn mewnosod Erthygl 5A newydd i Reoliad (EU) Rhif 576/2013 sy'n darparu nad yw symud cŵn, cathod neu ffuredau i mewn i Brydain Fawr yn symudiad anfasnachol oni bai bod yr anifail naill ai yng nghwmni ei berchennog neu yng nghwmni person a awdurdodwyd gan y perchennog, a bod y perchennog wedi dod i mewn i Brydain Fawr, neu y disgwylir iddo ddod i mewn i Brydain Fawr o fewn pum niwrnod i'r diwrnod y symudwyd yr anifail. O dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r person awdurdodedig ddarparu tystiolaeth ynghylch pryd y symudodd y perchennog neu ynghylch pryd y bydd yn symud.

23. Mae is-adran (6) yn gwneud diwygiadau i Reoliad (EU) Rhif 576/2013 er mwyn sicrhau mai dim ond perchennog (ac nid person awdurdodedig) a gaiff lofnodi datganiad bod symudiad yn un anfasnachol.

24. Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn neilltuol, lles anifeiliaid.

<u>Cymal 5: Cymhwyso'r rheolau masnachol mewn ffordd gyfatebol</u>

25. Mae is-adrannau (1), (2) a (3) yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i'r ddarpariaeth a wneir yng Nghymal 4, i is-ddeddfwriaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sy'n gymwys i fewnforio cŵn, cathod a ffuredau'n fasnachol.

26. Rwyf o’r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn neilltuol, lles anifeiliaid.

Cymal 6: Darpariaeth ganlyniadol

27. Mae is-adran (1) yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i'r ddarpariaeth a wneir gan Gymal 4(6) i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn Rhif 577/2013. Mae is-adran (2) yn gwneud diwygiadau eglurhaol i Reoliad (EU) Rhif 2017/625 sy'n ganlyniadol i'r ddarpariaeth a wneir gan Gymal 4.
28. Rwyf o’r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn neilltuol, lles anifeiliaid.

Cymal 7: Rheoliadau

29. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan y Bil wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer meysydd gwahanol, a darpariaeth ganlyniadol, drosiannol ac arall. Mae is-adrannau (2) i (9) yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau yn Senedd y DU ac yn y deddfwrfeydd datganoledig.

30. Rwyf o’r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn neilltuol, lles anifeiliaid.

Cymal 8: Rhychwant, cychwyn ac enw byr

31. Mae is-adrannau (1) a (2) yn nodi rhychwant tiriogaethol y Bil. Mae is-adrannau (3) a (4) yn nodi sut a phryd y daw Cymalau 1 i 8 i rym. Mae cymal 170(5) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth drosiannol neu arbed mewn cysylltiad â dod ag unrhyw un neu rai o ddarpariaethau'r Bil i rym. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff rheoliadau o'r fath wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac mae is-adran (7) yn darparu bod yn rhaid iddynt gael eu gwneud drwy offeryn statudol. Mae is-adran (8) yn nodi mai teitl byr y Bil fydd Animal Welfare (Import of Dogs, Cats and Ferrets) Act 2025.

32. Er nad yw rhai o'r is-adrannau yn y cymal hwn yn weithredol ac nad oes iddynt effaith gyfreithiol ynddynt ac ohonynt eu hunain (h.y. is-adrannau (1) i (4), ac (8)), rwyf o'r farn bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer is-adran (5) o'r cymal hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn arbennig, lles anifeiliaid.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

33. Mae'r Bil hwn yn rhychwantu ac yn gymwys o ran Cymru a Lloegr. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd Senedd Cymru ac mae'n cytuno bod angen Cydsyniad y Senedd.

34. Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau'r Bil gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae’n gymwys i Gymru, sef lles anifeiliaid.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau)**

35. Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hynny yn y Bil hwn am resymau sy'n ymwneud ag amseru ac er mwyn sicrhau cydlyniant, sy'n arbennig o bwysig mewn perthynas â gorfodi ar draws ffiniau a rheolaethau ffiniau.

36. Mae darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo lles anifeiliaid, a byddant yn sicrhau gwell cydnawsedd rhwng polisi a gweithredu, yn enwedig o ran materion trawsffiniol sy'n gysylltiedig â gorfodi. Bydd bwrw ymlaen â nhw yn y Bil hwn ar gyfer y DU yn rhoi'r un darpariaethau i Gymru â Lloegr a'r Alban a bydd, ar yr un pryd, yn cryfhau camau i ddiogelu lles anifeiliaid anwes. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftiwyd.

**Goblygiadau ariannol**

37. Nid ystyrir bod gan y Bil oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru heblaw costau staff.

**Casgliad**

38. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU er mwyn bwrw ymlaen â materion pwysig ac uchel eu proffil sy’n gysylltiedig â lles anifeiliaid. Rwyf, felly, yn argymell y dylai'r Senedd gefnogi’r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Mai 2025**